**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 27 AWST 2019 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Cadeirydd Dros Dro); Mr David Powell (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro); Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon) Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 10:00
**Amser Gorffen:** 16:00

**Ymddiheuriadau:** Cher Cooke (Swyddog Arolygon)

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Datganwyd buddiant yng Nghaerdydd gan Mrs Julie May
1.2. Datganwyd buddiant yng Nghaerdydd gan Mr David Powell
1.3. Datganwyd buddiant yng Nghaerdydd gan Mr Josh Lovell
1.4. Datganwyd buddiant yng Nghaerffili gan Mr Matt Redmond

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod wedi cael gwahoddiad gan Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, i ymgymryd â rôl Cadeirydd Dros Dro a’i fod wedi derbyn.
2.2. Cyhoeddodd y Cadeirydd hefyd fod Mr David Powell wedi cytuno i ymgymryd â rôl Dirprwy Gadeirydd Dros Dro.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir o’r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 20 Awst 2019 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad a nodwyd diweddariad ar gynnydd ynghylch y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Y Rhaglen Newid
- **(Mater 2)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach

## 5. Arolwg Etholiadol Caerdydd – Opsiynau Drafft

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 20 Awst 2019 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, Creigiau a Sain Ffagan, Pentyrch, Radur a Phentre-poeth, a **chytunwyd ar opsiwn 3** sy'n cynnwys dwy ward etholiadol Radur a Phentre-poeth a Phentyrch a Sain Ffagan.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n mynd i'r afael a thangynrychiolaeth bresennol ym Mhentre-poeth
- Mae'n gwella'r gymhareb etholiadol a amcanestynnir ar gyfer 2024 ym Mhentyrch a Sain Ffagan
- Mae'n alinio'r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn
- Mae'n cydymffurfio â chynrychiolaethau a dderbyniwyd ar gyfer yr ardal.

Hefyd, pwysleisiwyd manteision daearyddol opsiwn 3 gan y Comisiynwyr.

**Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cyfanswm o 5 aelod, sef cynnydd ar 3.**

5.3. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 2, y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanisien, Rhiwbeina a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais, a **chytunwyd ar opsiwn 3**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol y Mynydd Bychan, Llanisien, Rhiwbeina, Llys-faen a Draenen Pen-y-graig a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n alinio'r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn
- Mae'n defnyddio cysylltiadau cymunedol a chyfathrebu presennol.

Cydnabu'r Ysgrifenyddiaeth fod y newidiadau arfaethedig i ffiniau yn fwy addas ar gyfer arolwg cymunedol. Nododd y Comisiwn y datblygiad tai arfaethedig yn Llanisien ond nododd nad oedd opsiwn 4 mor addas o ran amrywiannau yn y dyfodol.

**Mae’r opsiwn hwn yn cadw cyfanswm o 15 aelod.**

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 3, Caerau, Treganna, Trelái, y Tyllgoed, Llandaf ac Ystum Taf a **chytunwyd ar opsiwn 1**.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n cadw’r trefniannau presennol gan fod y cymarebau’n foddhaol ac yn cydymffurfio â’r opsiwn a ffefrir gan y Cyngor.

**Mae’r opsiwn hwn yn cadw cyfanswm o 15 aelod.**

Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 4, Adamsdown, Cathays, Gabalfa, Plasnewydd a Glanyrafon **a chytunwyd ar opsiwn 3**. Mae’r opsiwn hwn yn cadw pum ward etholiadol ond yn symud cymuned y castell o Cathays i ward Glanyrafon.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n dileu dwy ward bresennol sydd â phedwar aelod
- Mae’n alinio’r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn
- Mae’n darparu gwelliannau cymedrol o ran cydraddoldeb etholiadol.

**Mae’r opsiwn hwn yn rhoi cyfanswm o 13 aelod, sef gostyngiad ar 15.**

5.5. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 5, Butetown, Grangetown a’r Sblot and **chytunwyd ar opsiwn 3.**

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n darparu gwelliannau sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol
- Mae’n cadw cysylltiadau cymunedol.

Mae’r opsiwn hwn yn creu ward pedwar aelod ychwanegol o fewn yr awdurdod ond roedd y Comisiwn yn teimlo y gellir cyfiawnhau hyn er mwyn gwella cydraddoldeb etholiadol a chadw’r cysylltiadau cymunedol yn Grangetown.

Ystyriodd y Comisiwn opsiwn 2 hefyd, ond teimlwyd bod yr amrywiannau yn 2024 yn annerbyniol. Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth na dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau ar gyfer ardal y Bae.

**Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cyfanswm o 10 aelod, sef cynnydd ar 7.**

5.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 6, Cyncoed, Llanrhymni, Pentwyn, Penylan, Pontprennau, Tredelerch a Trowbridge a **chytunwyd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r wardiau etholiadol presennol ond ceir gostyngiad o un Cynghorydd yn Llanrhymni a Phentwyn a darperir Cynghorydd ychwanegol ym Mhontprennau.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu lefelau priodol o gydraddoldeb etholiadol
- Mae'n gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y cynnydd yn nifer yr etholwyr a amcanestynnir
- Mae'n dileu ward bresennol â phedwar aelod.

**Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cyfanswm o 19 aelod, sef gostyngiad ar 20.**

**Crynodeb:**

Polisi'r Comisiwn yw cyfyngu maint mwyaf Cynghorau i 75 aelod os gellir cyflawni'r gwelliannau priodol o ran cydraddoldeb etholiadol. Wrth ystyried yr holl opsiynau presennol ar gyfer Caerdydd, ni allai'r Comisiwn gyflawni'r gwelliannau priodol o fewn yr uchafsymiau a nodir yn ei bolisi. Felly, gwnaed penderfyniad i dorri'r polisi ar yr achlysur hwn er budd cydraddoldeb etholiadol, a chynnig Cyngor o 77 aelod.

5.8. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a gynigir ar gyfer y wardiau etholiadol. Mae rhestr isod o'r enwau y cytunwyd arnynt yn y ddwy iaith:

| **Saesneg** | **Cymraeg** |
|---|---|
| Adamsdown | Adamsdown |
| Butetown | Butetown |
| Caerau | Caerau |
| Canton | Treganna |
| Cathays | Cathays |
| Cyncoed | Cyncoed |
| Ely | Trelái |
| Fairwater | Y Tyllgoed |
| Gabalfa | Gabalfa |
| Grangetown | Grangetown |

| | |
|---|---|
| Heath | Y Mynydd Bychan |
| Lisvane and Thornhill | Llys-faen a Draenen Pen-y-graig |
| Llandaff | Llandaf |
| Llandaff North | Ystum Taf |
| Llanishen | Llanisien |
| Llanrumney | Llanrhymni |
| Pentwyn | Pentwyn |
| Pentyrch and St. Fagans | Pentyrch a Sain Ffagan |
| Penylan | Penylan |
| Plasnewydd | Plasnewydd |
| Pontprennau and Old St. Mellons | Pontprennau a'r Hen Laneirwg |
| Radyr | Radur |
| Rhiwbina | Rhiwbeina |
| Riverside | Glanyrafon |
| Rumney | Tredelerch |
| Splott | Y Sblot |
| Trowbridge | Trowbridge |
| Whitchurch and Tongwynlais | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais |

## 6. Arolwg Etholiadol Caerffili – Opsiynau Drafft

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 27 Awst 2019 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga, a **chytunwyd ar opsiwn 2** sy'n cadw'r trefniannau presennol.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu lefelau priodol o amrywiannau yn yr ardal
- Mae'n sicrhau cynrychiolaeth etholiadol deg yn yr ardal
- Mae'n dileu'r angen i newid unrhyw ffiniau yn yr ardal.

Trafodwyd buddion opsiwn 3 hefyd. Pwysleisiodd yr Ysgrifenyddiaeth mai opsiwn 3 sy'n mynd i'r afael orau â gorgynrychiolaeth. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod

opsiynau 2 a 3 yn hyfyw ac y byddai â diddordeb mewn derbyn cynrychiolaethau o blaid y naill opsiwn neu'r llall.

**Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cyfanswm o 5 aelod, dim newid.**

6.3. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 2, Pont-y-cymer, Penmaen, Pontllanfraith ac Ynysddu, a **chytunwyd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer tair ward etholiadol Pontllanfraith, Penmaen ac Ynysddu a Phont-y-cymer.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol yn yr ardal.

**Mae'r opsiwn hwn yn cadw cyfanswm o 8 aelod.**

6.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 3, Cwm Darran, Tredegar Newydd, Moriah, Pontlottyn a Thwyn Carno, a **chytunwyd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dau newid i ffiniau a gynigiwyd gan y Cyngor.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant yn yr ardal.
- Mae'n cydymffurfio â'r cynllun a gynigiwyd gan y Cyngor.

Ystyriodd y Comisiynydd fuddion opsiwn 2 hefyd, ond penderfynodd yn erbyn yr opsiwn hwn gan ei fod yn hollti cymunedau.

**Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cyfanswm o 6 aelod, sef gostyngiad ar 7.**

6.5. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 4, Aberbargoed, Bargoed, Coed Duon, Pen-gam, Cefn Fforest a Gilfach a **chytunwyd ar opsiwn 5**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig pedair ward etholiadol Aberbargoed a Phen-gam, Bargoed a Gilfach, Coed Duon a Chefn Forest.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu ar gyfer lefelau priodol o amrywiannau presennol ac yn y dyfodol yn yr ardal.

**Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cyfanswm o 11 aelod, sef gostyngiad ar 13.**

6.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 5, Hengoed, Llanbradach, Sant Catwg, Ystrad Mynach, a **chytunwyd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tri newid i ffiniau a gynigiwyd gan y Cyngor.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant yn yr ardal.
- Mae'n cydymffurfio â'r cynllun a gynigiwyd gan y Cyngor.
- Mae'n cydymffurfio â'r holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd, neu ran o'r mwyafrif ohonynt.

Nododd yr Ysgrifenyddiaeth y cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor mewn perthynas â newid ffiniau Hengoed.

**Mae'r opsiwn hwn yn cadw cyfanswm o 9 aelod.**

6.7. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer ward etholiadol Rhanbarth 6, Penyrheol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn, a **chytunodd ar opsiwn 1** i gadw'r trefniannau presennol.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae amrywiannau'n dderbyniol, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Mae opsiynau eraill yn darparu mân welliannau yn unig o ran cydraddoldeb etholiadol ac maent yn groes i'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn cadw cyfanswm o 4 aelod.**

6.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 7, Bedwas, Tre-tomas a Machen, Morgan Jones, Sant James a Sant Martin, a **chytunwyd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig pum ward etholiadol, sef Bedwas a Tre-tomas, Machen a Rudry, Morgan Jones, Sant Martin, a Fan.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Gwelliant o ran amrywiannau presennol ac yn y dyfodol

- Mae’n darparu mwy o gynrychiolaeth ar gyfer cymuned Fan.

Trafododd y Comisiwn fuddion Opsiwn 4, sy’n cadw’r wardiau presennol ond yn gwneud gostyngiad o un yn nifer y Cynghorwyr yn Sant James. Teimlwyd fod hwn hefyd yn opsiwn hyfyw, ond wrth gadw ward Sant James, mae’n parhau i gyfuno dwy gymuned sydd â chysylltiadau cymunedol neu nodweddion ar y cyd cyfyngedig.

Penderfynodd y Comisiwn i gynnwys opsiwn 4 sy’n darparu ar gyfer 12 Cynghorydd fel dewis arall yn lle ei ddewis arfaethedig o **opsiwn 2 sy’n cadw cyfanswm o 13 Cynghorydd**.

6.9. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 8, Cwm Aber, a **chytunodd ar opsiwn 2.**

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’r opsiwn hwn yn darparu gwelliant o ran cydraddoldeb etholiadol
- Mae’n gostwng nifer y cynghorwyr o dri i ddau.

**<u>Y nifer cyffredinol o aelodau a gynigir yw 69 (neu 68 os cymerir opsiwn amgen 4 yn rhanbarth 7)</u>**

6.10. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a gynigir ar gyfer y wardiau etholiadol. Caiff y rhain eu hadolygu a’u cytuno yng Nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

| Saesneg | Cymraeg |
|---|---|
| Aber Valley | Cwm Aber |
| Aberbargoed and Pengam | Aberbargoed a Phen-gam |
| Abercarn | Abercarn |
| Argoed | Argoed |
| Bargoed and Gilfach | Bargoed a Gilfach |
| Bedwas and Trethomas | Bedwas a Thre-tomas |
| Blackwood | Coed Duon |
| Cefn Fforest | Cefn Fforest |
| Crosskeys and Ynysddu | Pont-y-cymer ac Ynysddu |
| Crumlin | Crymlyn |
| Darran Valley | Cwm Darran |
| Hengoed | Hengoed |
| Llanbradach | Llanbradach |
| Machen and Rudry | Machen a Rudry |
| Maesycwmmer | Maesycwmmer |
| Morgan Jones | Morgan Jones |

| | |
|---|---|
| Moriah and Pontlottyn | Moriah a Phontlottyn |
| Nelson | Nelson |
| New Tredegar | Tredegar Newydd |
| Newbridge | Trecelyn |
| Penmaen | Penmaen |
| Penyrheol | Penyrheol |
| Pontllanfraith | Pontllanfraith |
| St. Cattwg | Sant Catwg |
| St. Martins | Sant Martin |
| Twyn Carno | Twyn Carno |
| Van | Fan |
| Ystrad Mynach | Ystrad Mynach |

## 7. Arolwg Etholiadol Merthyr – Opsiynau Terfynol ac Adroddiad

7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 07 Awst 2019 gan y Swyddog Arolygon.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 1, Dowlais, Parc a Gurnos, a chytunwyd ar **opsiwn 1**. Mae’r opsiwn hwn yn cadw ffiniau presennol wardiau etholiadol ond yn gostwng nifer y Cynghorwyr o 11 i 8.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n darparu gwelliannau sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol
- Mae’n gostwng nifer y cynghorwyr o 11 i 8.
- Mae’n dileu’r angen i newid unrhyw ffiniau yn yr ardal.

7.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i’w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau’r broses Sicrhau Ansawdd.

**Mae’r opsiwn hwn yn rhoi cyfanswm o 8 aelod, sef gostyngiad ar 11.**

**Cyfanswm cyffredinol yr aelodau –** 30

7.4. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a gynigir ar gyfer y wardiau etholiadol. Mae rhestr isod o’r enwau y cytunwyd arnynt yn y ddwy iaith.

| Saesneg | Cymraeg |
|---|---|
| Bedlinog | Bedlinog |
| Cyfartha | Cyfarthfa |
| Dowlais and Pant | Dowlais a Phant |
| Gurnos | Gurnos |

| | |
|---|---|
| Merthyr Vale | Ynysowen |
| Park | Parc |
| Penydarren | Penydarren |
| Plymouth | Plymouth |
| Town | Y Dref |
| Treharris | Treharris |
| Vaynor | Faenor |

**8. Arolwg Etholiadol Castell-nedd Port Talbot – Adroddiad Drafft**

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 09 Awst 2019 gan y Swyddog Arolygon.

8.2. Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad gan y Comisiwn, a'r enwau a gynigir ar gyfer wardiau etholiadol.

8.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad, yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**Cyfanswm cyffredinol yr aelodau – 59**

8.4. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a gynigir ar gyfer y wardiau etholiadol. Mae rhestr isod o'r enwau y cytunwyd arnynt yn y ddwy iaith.

| **Saesneg** | **Cymraeg** |
|---|---|
| Aberavon | Aberafan |
| Aberdulais | Aberdulais |
| Allt-Wen | Allt-Wen |
| Baglan | Baglan |
| Blaengwrach and Glynneath | Blaengwarch a Glyn-nedd |
| Briton Ferry East | Dwyrain Llansawel |
| Briton Ferry West | Gorllewin Llansawel |
| Bryn-côch North | Gogledd Bryn-côch |
| Bryn-côch South | De Bryn-côch |
| Bryn, Cwmavon and Pelenna | Bryn, Cwmafan a Phelenna |
| Cadoxton | Llangatwg |
| Cimla | Cimla |

| | |
|---|---|
| Coedffranc Central | Canol Coed-ffranc |
| Coedffranc North | Gogledd Coed-ffranc |
| Coedffranc West | Gorllewin Coed-ffranc |
| Crynant, Onllwyn and Seven Sisters | Y Creunant, Onllwyn a Blaendulais |
| Cwmllynfell and Ystalyfera | Cwmllynfell ac Ystalyfera |
| Cymmer and Glyncorrwg | Y Cymer a Glyncorrwg |
| Dyffryn | Dyffryn |
| Godre'r Graig | Godre'r Graig |
| Gwaun-Cae-Gurwen and Lower Brynamman | Gwaun-Cae-Gurwen a Brynaman Isaf |
| Gwynfi and Croeserw | Gwynfi a Chroeserw |
| Margam and Tai-bach | Margam a Thai-bach |
| Neath East | Dwyrain Castell-nedd |
| Neath North | Gogledd Castell-nedd |
| Neath South | De Castell-nedd |
| Pontardawe and Trebanos | Pontardawe a Threbannws |
| Port Talbot | Port Talbot |
| Resolven and Tonna | Resolfen a Thhonna |
| Rhos | Rhos |
| Sandfields East | Dwyrain Sandfields |
| Sandfields West | Gorllewin Sandfields |

## 9. Arolwg Etholiadol Wrecsam – Adroddiad Drafft

9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 20 Awst 2019 gan y Swyddog Arolygon.

9.2. Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad gan y Comisiwn, a'r enwau a gynigir ar gyfer wardiau etholiadol.

9.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad, yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

9.4. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a gynigir ar gyfer y wardiau etholiadol. Mae rhestr isod o'r enwau y cytunwyd arnynt yn y ddwy iaith.

| Saesneg | Cymraeg |
|---|---|
| Acrefair North | Gogledd Acre-fair |
| Acton and Maesydre | Gwaunyterfyn a Maes-y-dre |
| Rossett | Yr Orsedd |
| Bangor Is-y-Coed | Bangor Is-y-Coed |
| Borras Park | Parc Borras |
| Bronington and Hanmer | Bronington a Hanmer |
| Brymbo | Brymbo |
| Bryn Cefn | Bryn Cefn |
| Brynyffynnon | Brynyffynnon |
| Burton and Llay | Burton a Llai |
| Cartrefle | Cartrefle |
| Cefn East | Dwyrain Cefn |
| Cefn West | Gorllewin Cefn |
| Chirk North | Gogledd y Waun |
| Chirk South | De'r Waun |
| Coed-poeth | Coed-poeth |
| Dyffryn Ceiriog | Dyffryn Ceiriog |
| Erddig | Erddig |
| Esclusham | Esclusham |
| Garden Village | Garden Village |
| Gresford East and West | Dwyrain a Gorllewin Gresffordd |
| Grosvenor | Grosvenor |
| Gwenfro | Gwenfro |
| Gwersyllt North East | Gogledd Ddwyrain Gwersyllt |
| Gwersyllt North West | Gogledd-Orllewin Gwersyllt |
| Gwersyllt South | De Gwersyllt |

| | |
|---|---|
| Hermitage | Hermitage |
| Holt | Holt |
| Johnstown and Pant | Johnstown a Phant |
| Little Acton | Acton Fechan |
| Llangollen Rural | Llangollen Wledig |
| Marchwiel | Marchwiel |
| Marford and Hoseley | Marford a Hoseley |
| Minera | Mwynglawdd |
| New Broughton | Brychdyn Newydd |
| Offa | Offa |
| Overton and Maelor South | Owrtyn a De Maelor |
| Penycae | Pen-y-cae |
| Penycae and Ruabon South | Pen-y-cae a De Rhiwabon |
| Ponciau | Ponciau |
| Queensway | Queensway |
| Rhos | Rhos |
| Rhosnesni | Rhosnesni |
| Ruabon | Rhiwabon |
| Smithfield | Smithfield |
| Stansty | Stansty |
| Whitegate | Whitegate |
| Wynnstay | Wynnstay |

## 10. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 15 Awst 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. **Nodwyd** bod y newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gweithredu.

10.3. Unwaith eto, ystyriodd y Comisiwn yr oedi cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gorchymyn ar gyfer arolwg cymunedol Sir Fynwy a'r effaith bosibl ar yr amserlen ar gyfer cwblhau arolwg etholiadol Sir Fynwy erbyn y dyddiad cau gofynnol yn 2021. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, anfonwyd llythyr at Ddirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru i'w rhybuddio am y risg i'r Comisiwn ac i gynnig cymorth o ran drafftio'r gorchymyn ar gyfer arolwg cymunedol Sir Fynwy. Fodd bynnag, gan nad yw'r risg wedi'i dileu, **cytunwyd** ar godi hyn â hi mewn cyfarfod y diwrnod canlynol. Hefyd, awgrymodd yr Ysgrifenyddiaeth y dylid ysgrifennu'n ffurfiol at y Gweinidog. Ni chytunwyd ar hyn gan y Comisiynwyr.

10.4. **Cytunwyd** y bydd camau lliniaru ychwanegol yn cael eu hychwanegu at risg CR4. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn cysylltu â Chyngor Sir Fynwy ar frys ynglŷn â'r mater ac yn gofyn am amcangyfrif o ba mor hir y byddai'n ei gymryd iddynt weithredu argymhellion yr arolwg cymunedol. Ar ben hynny, cynigiwyd mai sefyllfa wrth-gefn y Comisiwn pe na bai unrhyw gynnydd ar yr arolwg Cymunedol fyddai defnyddio'r trefniadau etholiadol presennol yn Sir Fynwy er mwyn bwrw ymlaen yn brydlon â'r arolwg etholiadol.

## 11. Adroddiad Cyllideb

11.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 27 Awst 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. Cafodd trosglwyddo arian rhwng y categorïau cyllideb canlynol ei **gymeradwyo** gan y Comisiwn: costau staff ar secondiadau mewn adrannau eraill y llywodraeth, teithio a chynhaliaeth yr Ysgrifenyddiaeth, hyfforddiant, deunydd ysgrifennu, costau cyfreithiol a llogi ceir, er mwyn mynd i'r afael â gorwariant amcangyfrifedig yn y categorïau hynny. Nodwyd yr amcangyfrif o danwariant cyffredinol am y flwyddyn hefyd.

11.3. **Nodwyd** y byddai'r cynnydd mewn cyflog sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd, os cytunir arno, yn lleihau lefel y tanwariant cyffredinol amcangyfrifedig.

## 12. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 29 Gorffennaf 2019

12.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 19 Awst gan y Rheolwr Cyllid ar y materion a ystyriwyd a'r pwyntiau a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2019. **Nodwyd** y cyfarfod **a chymeradwywyd y cofnodion**.

## 13. Polisi Teithio a Chynhaliaeth

13.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 16 Awst gan y Rheolwr Busnes. Nodwyd nad oedd y polisi'n cyfeirio'n benodol at Gomisiynwyr. Fodd bynnag, roedd polisi ar wahân yn ymwneud â ffioedd a threuliau Aelodau a chytunwyd y bydd polisi ffioedd a threuliau'r Aelodau yn cael ei wirio i weld p'un ai yw'n gyson â'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth.

13.2. **Cytunwyd** ar dderbyn y polisi yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 14. Adborth y Broses Arolygon

14.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 20 Awst gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

14.2. **Cytunwyd** yn y lle cyntaf i anfon Holiadur Gwersi a Ddysgwyd cyn gynted â phosibl gyda'r cwestiynau i'w cytuno yng nghyfarfod mis Medi.

14.3. Hefyd, **cytunwyd** y bydd ail gam wedi'i dargedu lle byddwn yn mynd at randdeiliaid dethol i gael adborth.

## 15. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

15.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 20 Awst gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

15.2. **Cytunwyd** ar ymgynghoriad dros gyfnod y Nadolig.

15.3. Ni chodwyd unrhyw newidiadau i'r risgiau presennol.

15.4. **Nodwyd** cynnwys yr adroddiad.

## 16. Calendr Digwyddiadau

16.1. Diweddarwyd dyddiad y cyfarfod ar 24 Mawrth i 31 Mawrth.

16.2. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 17. Unrhyw Fusnes Arall

17.1 Nid oedd unrhyw eitemau pellach i'w trafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 24 Medi 2019**